**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**13 MAWRTH 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd, Cyngor Sir y Fflint, a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 13 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Colin Legg, Paul Shotton ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Patrick Heesom a Mike Peers fel sylwedyddion

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd; Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant); Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); a'r Rheolwr Cludiant a Logisteg

Mr. Askar Sheibani (Cadeirydd Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy) a Rheolwr y Strategaeth Priffyrdd ar gyfer cofnod rhif 63

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 61. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Dim.

## 62. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018.

Cywirdeb

Cofnod rhif 54: Yn llinell gyntaf yr ail baragraff lle'r oedd y Cynghorydd Peers wedi siarad o blaid Rheswm 1, dywedodd y Cynghorydd Gay y dylid dileu'r gair 'a' a rhoi'r geiriau 'yn hytrach na' yn ei le.

Cofnod rhif 56: Yn llinell gyntaf y trydydd paragraff, roedd y Cynghorydd Dolphin wedi esbonio pam ei fod o'r farn y dylai'r taliadau fod yn safonol ar draws holl feysydd parcio Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau hyn, y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 63. STRATEGAETH TRAFNIDIAETH INTEGREDIG CYNGOR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Cynghorydd Carolyn Thomas yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Trafnidiaeth Integredig ar gyfer Sir y Fflint. Roedd yn ddiolchgar i'r tîm am weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau arian cyfalaf i gefnogi cynlluniau yn y Strategaeth a oedd yn ceisio darparu ateb trafnidiaeth gynaliadwy tymor hir drwy integreiddio pob dull trafnidiaeth gyda chysylltiadau ar draws y sir a'r rhanbarth ehangach.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) a'r Rheolwr Cludiant a Logisteg gyflwyniad yn ymwneud â'r materion a ganlyn:

- Prif Ysgogwyr – Pam ymdrin â'r mater hwn yn awr?
- Ateb Hollol Integredig
- Llwybr Beicio a Theithio Llesol
- Gwelliannau i'r Priffyrdd
- Rhwydwaith Bysiau
- Gwelliannau i'r Rheilffyrdd
- Cysylltu Sir y Fflint
- Cynnydd hyd yma

Roedd y Strategaeth wedi esblygu o Gynllun Glannau Dyfrdwy i ymestyn ar draws y sir a'i alinio â system Metro Gogledd Ddwyrain Cymru (a oedd yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru) ac roedd wedi helpu i ddenu arian cyfalaf. Er bod rhai o'r prif ysgogwyr yn ymwneud â mynd i'r afael â thagfeydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy fel prif ganolbwynt cyflogaeth yr ardal honno, nod y prosiect cyffredinol oedd sefydlu cysylltiadau rhwng safleoedd cyflogaeth allweddol ac ardaloedd preswyl ledled Sir y Fflint. Cafodd yr Aelodau eu hannog i ddod i weithdy ar 11 Ebrill 2018 i drafod yr adolygiad o'r cymorthdaliadau trafnidiaeth gyhoeddus a datblygiad trefniadau trafnidiaeth gymunedol.

Cafodd y Pwyllgor ei gyflwyno i Mr. Askar Sheibani (Cadeirydd Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy) a siaradodd am bwysigrwydd economaidd Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn y rhanbarth a'r nod o wella'r cysylltiadau gydag ardaloedd eraill yn Sir y Fflint. Rhoddodd ganmoliaeth i ddull gweithredu blaengar y Cyngor a'i gwaith roedd wedi ei gyflawni hyd yma.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnydd a wnaed a'r ymrwymiad i greu cysylltiadau er mwyn cyrraedd at gyfleoedd cyflogaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Shotton gwestiwn am yr amserlenni ar gyfer y canolbwynt rheilffordd/ffyrdd/bysiau. Dywedodd y Prif Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r arian ar gyfer y bysiau newydd ac roedd disgwyl iddynt fod yn weithredol erbyn mis Hydref. Er bod arian a thir ar gael, byddai angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r trefniadau gweithredol. Y ddarpariaeth ar gyfer rheilffyrdd oedd yr agwedd fwyaf uchelgeisiol a byddai'r opsiynau yn cael eu trafod gan weithgor ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru.

Er ei fod yn croesawu'r Strategaeth, roedd y Cynghorydd Dolphin o'r farn nad oedd digon o fanylion yn yr adroddiad, yn enwedig ynglŷn â'r manteision i drigolion yng ngorllewin Sir y Fflint. Nodwyd ei bryderon ynghylch y tagfeydd yn

ardal cyffordd Lloc/Caerwys ar yr A55. Roedd y Prif Swyddog yn cydnabod nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu lefel y gwaith a wnaed hyd yma ond esboniodd fod y prosiect yn ehangu i gynnwys ardaloedd eraill. Nid oedd yn bosibl amcangyfrif cyfanswm y gost ar hyn o bryd gan fod y prosiect yn cynnwys nifer o gynlluniau oedd yn esblygu ac roedd rhai yn bodloni'r meini prawf ar gyfer arian Teithio Llesol.

Gofynnodd y Cynghorydd Bibby am gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru am effaith llai o wasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig. Mewn ymateb i sylwadau am Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, esboniwyd y byddai canlyniadau arolwg diweddar i ganfod patrymau gweithio shifftiau o gymorth i lunio'r amserlenni bysiau newydd. O ran y gwelliannau i deithiau bysiau drwy Stryd Fawr Shotton, y bwriad oedd ymgynghori'n llawn â thrigolion a busnesau ar hyd coridor Glannau Dyfrdwy. O ran y cyfleuster Parcio a Theithio arfaethedig o Benyffordd i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, byddai datblygiad y Bartneriaeth Ansawdd yn sicrhau bod cysylltiadau yn ymestyn i ardaloedd eraill fel yr Wyddgrug a Bwcle. Cytunodd y Prif Swyddog i gyfleu pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lwybrau beiciau i Heddlu Gogledd Cymru.

Awgrymodd y Cynghorydd Evans opsiynau ar gyfer cysylltu Parth 4 Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy â llwybrau eraill ar gyfer Stryd Fawr Shotton. Nododd y Prif Swyddog y pryderon yn ymwneud â diogelwch oherwydd y traffig ar Stryd Fawr Shotton a'r awgrym i osod synwyryddion i dynnu sylw cerbydau nwyddau trwm wrth iddynt nesáu at y bont reilffordd. Mewn perthynas â Parkway, Glannau Dyfrdwy, nodwyd bod y Cyngor yn gweithio gyda dylunydd y Llwybr Coch ar ddatblygiad yr orsaf reilffordd arfaethedig newydd.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Owen Thomas, siaradodd Mr. Sheibani am yr angen i ymgysylltu â busnesau ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy i annog gweithwyr i ddefnyddio cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dunbobbin at y potensial i ddefnyddio'r afon a hefyd bod y Cyngor yn sefydlu ei gwmni ei hun i ddarparu gwasanaethau bysiau. Mewn ymateb i ymholiadau, esboniodd y swyddogion y byddai ceisiadau am arian grant yn cysylltu â dyletswyddau deddfwriaethol, ac y byddent yn gofyn am ddiweddariad gan Network Rail ynglŷn â thrydaneiddio'r linell rheilffordd rhwng Wrecsam a Bidston.

Yn dilyn sylwadau ynghylch Maes Awyr Penarlâg, dywedodd y Cynghorydd Butler wrth yr Aelodau nad oedd ehediadau masnachol yn debygol ar hyn o bryd. Aeth yn ei flaen i ddweud, er y byddai rhai o'r datrysiadau trafnidiaeth o fudd i Gynghrair Merswy-Dyfrdwy, roedd y prosiect yn ymwneud yn bennaf â chynhwysiant: gwella mynediad i safleoedd cyflogaeth a mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw gweithwyr.

Roedd y Cynghorydd Gay o'r farn y byddai'n ddefnyddiol edrych ar y map yn fanwl a chododd rhai materion ynghylch mynediad o Saltney i Lannau Dyfrdwy. Dywedodd y Rheolwr Cludiant a Logisteg fod swyddogion yn edrych ar faterion ehangach ac yn ymwybodol o'r mannau cyfyng. Ar fater y safle Parcio a Theithio arfaethedig ym Mhenyffordd, esboniwyd bod tir eisoes ar gael a byddai safleoedd eraill yn cael eu hystyried.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bateman am y llwybr beicio o'r Wyddgrug i Frychdwn, dywedodd y Prif Swyddog fod y galw wedi cael ei nodi a bod opsiynau yn cael eu hystyried er mwyn i ymgynghorydd ddarparu costau. Roedd gorsaf reilffordd ger Brychdwn a chyfleuster Parcio a Theithio yng Nghaer yn cael eu hystyried a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn y dyfodol.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) i nifer o sylwadau gan Aelodau a chyfeiriodd at y berthynas rhwng y Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno datgan ei werthfawrogiad i bawb oedd ynghlwm â'r hyn roedd ef yn ystyried fel prosiect cyffrous i Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith ar ddatrysiad Trafnidiaeth Integredig Cyngor Sir y Fflint a'i gysylltiadau â chysylltiadau ehangach cynlluniau Metro Gogledd Ddwyrain Cymru gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn yr eitem, cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod yn gohirio'r cyfarfod am bum munud.

**64. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18**

Cyflwynodd y Prif Swyddogion (Cynllunio a'r Amgylchedd) a (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad monitro Chwarter 3 Cynllun y Cyngor 2017/18 mewn perthynas â'r flaenoriaeth 'Cyngor Gwyrdd' a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor. Tynnwyd sylw'r Aelodau at feysydd fel nodi strategaeth ddewisol y Cynllun Datblygu Lleol ac opsiynau ar gyfer gwella perfformiad ailgylchu yn safleoedd ailgylchu nwyddau cartref.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Shotton, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) fod trafodaethau yn cael eu cynnal ar y defnydd posibl o blastigau wedi'u hailgylchu yn gymysg â bitwmen y gellid ei osod ar arwynebau rhai ffyrdd, fodd bynnag, nid oedd y dull hwn wedi ei brofi hyd yma. Byddai angen i ddyraniad £1.427m Sir y Fflint o arian Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cynnal ffyrdd ynghyd â dyraniad cyfalaf y Cyngor gael ei ddyrannu'n ofalus i ddarparu'r manteision gorau posibl. Cynhaliwyd arolwg o'r holl ffyrdd i ddatblygu rhaglen a fyddai'n cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Evans, esboniwyd y byddai amodau'r ffyrdd a'r tywydd yn penderfynu a fyddai'n gost-effeithiol i selio'r tyllau yn y ffyrdd ar ôl eu trwsio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gay at nifer o broblemau yn ei ward, gan gynnwys tipio anghyfreithlon yn y ganolfan ailgylchu nwyddau cartref yn Saltney a cholli gwasanaethau bysiau yn Boundary Lane. Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) y byddai'r opsiynau ar gyfer trefniadau trafnidiaeth gymunedol yn cael eu rhannu yn y gweithdy a oedd i'w gynnal yn y

dyfodol ac anogodd yr Aelodau i roi gwybod i'r goruchwyliwr ardal perthnasol am unrhyw broblemau yn ymwneud ag arwyneb ffyrdd.

Gofynnodd y Cynghorydd Hinds a fyddai mwy yn gallu cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i amserlenni bysiau pan fydd gwasanaethau yn newid. Dywedodd y Rheolwr Cludiant a Logisteg fod y tîm yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion. Aeth ymlaen i ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bateman ar waredu bysiau ar ôl i gwmni GHA Coaches fynd i'r wal, a dywedodd fod arian yn cael ei ail-fuddsoddi mewn trefniadau trafnidiaeth.

Yn ystod trafodaeth ar drefniadau staffio, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) mai Derrick Charlton oedd swyddog arweiniol llwybrau cyhoeddus bellach, ac roedd dull gweithredu yn cael ei ystyried gyda Wrecsam mewn perthynas â'r Fforwm Mynediad Lleol.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Nodi adroddiad monitro 3ydd Chwarter Cynllun y Cyngor 2017/18 i fonitro tanberfformio.

## 65. <u>RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL</u>

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol gan atgoffa'r Aelodau am y gweithdy trafnidiaeth ar 11 Ebrill. Roedd y Cynghorydd Hinds yn ymddiheuro na fyddai'n bresennol. O ran yr eitemau ar yr amserlen, esboniodd yr Hwylusydd y byddai'r ymweliad safle â Pharc Adfer yn cael ei aildrefnu ar amser priodol.

Yn unol â chais y Cynghorydd Evans, cytunodd y swyddogion i gyflwyno'r adroddiad ar Orfodaeth a Gofal Amgylcheddol yng nghyfarfod mis Ebrill a fyddai'n cael ei gynnal ym Mharc Treftadaeth Maes-glas. Cytunwyd hefyd y byddai Aelodau yn cael eu gwahodd i fynd ar daith o amgylch y safle am 9.30am cyn i'r cyfarfod ddechrau am 10am.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei newid;

(b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, fel y bo'r angen.

## 66. <u>AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG A OEDD YN BRESENNOL</u>

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.45pm)

…………………………
**Cadeirydd**